**ATODIAD A**

# ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLAETHOL GWYNEDD

# CYNIGION CYNGOR GWYNEDD

**CYFLWYNIAD**

1. Mae Cyngor Gwynedd yn falch o'r cyfle i gyflwyno cynigion lleol fel rhan o broses y Comisiwn Ffiniau ond, wrth wneud y cynigion hyn, mae'r Cyngor yn awyddus i wneud dau brif bwynt:-

a. Roedd y cyfnod ymgynghori, a groesodd cyfnod etholiad Cyngor Sir a Cynghorau Cymuned, yn gwbl annigonol ar gyfer unrhyw drafodaeth leol ystyrlon ac mae hynny wedi effeithio ar y gallu i fanylu ar rhai cynigion. (Gyda hyn mewn golwg, mae'r Cyngor yn barod iawn i gynorthwyo'r Comisiwn ymhellach gyda mwy o dystiolaeth wrth iddynt lunio eu cynigion drafft).

b. Dylai'r Comisiwn Ffiniau roi sylw i anghenion cynrychiolaeth leol effeithiol ac effaith y boblogaeth sydd ddim ar y gofrestr etholwyr, ar bwynt arbennig mewn amser, wrth lunio ei gynigion. Yn benodol, mae'r galw a'r llwyth gwaith sydd yn codi yn sgil presenoldeb myfyrwyr, ymwelwyr, perchnogion ail-gartrefi ac eraill sydd ddim ar y gofrestr etholwyr leol yn golygu bod yn rhaid rhoi sylw i hynny wrth bennu maint etholaethau.

DS Wrth lunio ei gynigion, mae'r Cyngor wedi edrych ar y gymhareb etholwr i gynghorydd yr oedd y Comisiwn yn ei argymell ar gyfer y sir ond, fel canllaw, gan od natur etholaethau yn amrywio, wedi caniatáu hyd at oddeutu 25% o amrywiaeth dros ben ac o dan y ffigwr hynny. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi rhoi ei sylw pennaf i'r etholaethau bychan o fewn y sir. Lle mae etholaethau sydd yn ymddangos yn fawr ond y maent yn gwneud synnwyr o ran cysylltiadau cymunedol a chynrychiolaeth effeithiol, nid yw'r Cyngor wedi awgrymu eu lleihau. Lle mae'n bosib, mae'r Cyngor wedi ceisio llunio cynigion sydd yn sicrhau etholaethau un aelod gan bod hynny, ym marn y Cyngor, yn well o ran atebolrwydd democrataidd lleol. Mae dau eithriad i hynny yn ardal Bangor (gweler paragraff 3.1) lle y mae'r Cyngor yn dadlau bod amgylchiadau arbennig sydd yn teilyngu hynny.

**ARDALOEDD LLE YR AWGRYMIR DIM NEWID**

2. Mae cynigion y Cyngor yn disgyn i ddau gategori, y cyntaf lle'r argymhellir dim newid (paragraffau 2.1 i 2.35 isod), a'r ail lle mae'r Cyngor yn cynnig rhai newidiadau (paragraffau 3.1 i 3.12).

**Ardaloedd yn Arfon**

2.1. <u>Arllechwedd</u> – Mae'r etholaeth hon o 1,000 o etholwyr yn cynnwys 4 ward cymunedol, Abergwyngregyn, Llandygai a Llanllechid Uchaf ac Isaf. Mae'r etholaeth eisoes yn enfawr yn ddaearyddol (8,168 hectar) ac yn anodd i deithio o'i gwmpas, yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn ond o fewn yr amrywiaeth y mae'r Cyngor wedi ei ganiatáu. Ar ben hynny, mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.2. <u>Bethel</u> – Mae'r etholaeth hon o 1,007 o etholwyr yn cynnwys un ward cymunedol o fewn cymuned Llanddeiniolen. Er ei fod yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn, mae'n bentref â'i hunaniaeth ei hun fel uned ac yn gymuned naturiol sydd yn tyfu a datblygu ac mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.3. Deiniolen - Mae’r etholaeth hon o 1,321 o etholwyr yn cynnwys 3 ward cymunedol, Deiniolen, Clwt y Bont a Dinorwig. Mae’r etholaeth fymryn yn uwch na chanllaw y Comisiwn Ffiniau ond oherwydd bod yr etholaeth yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol, ni fyddai’n gwneud synnwyr i’w rannu o gwbl a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.4. Dewi (Bangor) - Mae’r etholaeth hon o 1,204 o etholwyr yn un ward cymunedol ac mae’n agos iawn at ffigwr canllaw y Comisiwn Ffiniau. Cafodd addasu’r etholaeth ei ystyried yng nghyd-destun y newidiadau eraill, a awgrymir isod i etholaethau eraill ym Mangor ond byddai unrhyw newidiadau o’r fath wedi tynnu oddi wrth etholaeth sydd yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol nac yn gymunedol i’w rannu. Felly, nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.5. Gerlan - Mae’r etholaeth hon o 1,615 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Rachub a Gerlan. Mae’r etholaeth yn fwy na chanllaw y Comisiwn Ffiniau. Mae’r etholaeth fel ag y mae sydd yn rhyw hanner cylch o gwmpas tref Bethesda ac yn dwyn ynghyd gymunedau tebyg ar gyrion yr hen dref llechi. Mae’n gwneud synnwyr felly yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.6. Glyder (Bangor) - Mae’r etholaeth hon o 1,200 o etholwyr un ward cymunedol. Cafodd addasu’r etholaeth ei ystyried yng nghyd-destun y newidiadau eraill, a awgrymir isod i etholaethau eraill ym Mangor ond byddai unrhyw newidiadau o’r fath wedi tynnu oddi wrth etholaeth oedd yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol nac yn gymunedol i’w rannu. Felly, nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.7. Y Groeslon - Mae’r etholaeth hon o 1,284 o etholwyr yn cynnwys dau ward cymunedol, Groeslon a Dinas Dinlle. Rhoddwyd ystyriaeth i newid yr etholaeth hon yn sgil yr angen i wneud newidiadau eraill i etholaethau cyfagos ond nid oedd angen gwneud hynn yn y diwedd ac mae’r etholaeth bresennol yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.8. Llanberis - Mae’r etholaeth hon o 1,530 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Padarn, sydd yn cynnwys tref Llanberis ei hun, a Nant Peris. Mae’r etholaeth Padarn ar ei ben ei hun yn fwy na chanllaw y Comisiwn Ffiniau ond mae’r cyswllt amlwg rhwng Nant Peris a Padarn yn golygu bod yr etholaeth yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.9. Llanrug – Mae’r etholaeth hon o 1,349 o etholwyr yn un ward cymunedol ar gyfer pentref Llanrug ei hun. Mae’n agos iawn, o ran niferoedd at ffigwr canllaw y Comisiwn, mae’n bentref â’i hunaniaeth ei hun fel uned ac yn gymuned naturiol sydd yn tyfu a datblygu ac mae’n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.10. Ogwen - Mae’r etholaeth hon o 1,609 o etholwyr yn un ward cymunedol, tref Bethesda ei hun. Mae’n etholaeth fawr drefol ond mae’n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.11. Pentir - Mae’r etholaeth hon o 1,810 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Faenol a Glasinfryn. Rhoddwyd ystyriaeth i Pentir yng nghyd-destun newidiadau posib eraill ym Mangor a Dyffryn Ogwen ond daethpwyd i’r casgliad bod yr etholaeth, er yn fawr, yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid oedd yn gwneud synnwyr ei rannu na chysylltu rhannau ohono gydag etholaethau eraill, Felly, nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.12. Penygroes - Mae'r etholaeth hon o 1,341 o etholwyr yn un ward cymunedol. Mae'r etholaeth yn bentref â'i hunaniaeth ei hun fel uned ac oddeutu ffigwr canllaw y Comisiwn o ran niferoedd. Mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.13. Tregarth a Mynydd Llandygai - Mae'r etholaeth hon o 1,625 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Tregarth a St Ann's. Mae'r etholaeth fawr o'i gymharu â ffigwr canllaw y Comisiwn ond ar ôl ei ystyried yng nghyd-destun newidiadau posib eraill yn Nyffryn Ogwen, daethpwyd i'r casgliad bod yr etholaeth, er yn fawr, yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid oedd yn gwneud synnwyr ei rannu na chysylltu rhannau ohono gydag etholaethau eraill, Felly, nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.14. Waunfawr - Mae'r etholaeth hon o 1,265 o etholwyr yn cynnwys 4 ward cymunedol, Waunfawr ei hun, Caeathro, Betws Garmon a Rhyd-ddu. Ystyriwyd y cyswllt mwyaf addas ar gyfer Caeathro pan yn trafod etholaeth Bontnewydd ond, gan bod yr etholaeth bresennol yn agos iawn at ffigwr canllaw'r Comisiwn o ran niferoedd a'i fod yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.15. Y Felinheli - Mae'r etholaeth hon o 1,694 o etholwyr yn un ward cymunedol. Er ei fod yn fwy na ffigwr canllaw'r Comisiwn o ran niferoedd, yn ddaearyddol, nid yw'n gwneud synnwyr ei wahanu mewn unrhyw ffordd gan fod iddo ei hunaniaeth ei hun fel uned a felly, gan fod ei fod yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol, nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

**Ardaloedd yn Nwyfor**

2.16. Abererch - Mae'r etholaeth hon o 989 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Abererch a'r Ffôr. Mae'r etholaeth yn fawr yn daearyddol (2,489 hectar) ac yn anodd i deithio o'i gwmpas, yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn ond o fewn yr amrywiaeth y mae'r Cyngor wedi ei ganiatáu. Rhoddwyd ystyriaeth i'r etholaeth yng nghyd-destun rhai newidiadau cyffiniol ond nid oedd hynny yn cynnig unrhyw welliant arwyddocaol i'r sefyllfa. Ar ben hynny, mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.17. Criccieth - Mae'r etholaeth hon o 1,301 o etholwyr yn un ward cymunedol, Mae'r etholaeth yn dref â'i hunaniaeth ei hun fel uned ac oddeutu ffigwr canllaw y Comisiwn o ran niferoedd. Mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.18. Dolbenmaen - Mae'r etholaeth hon o 920 o etholwyr yn cynnwys 5 ward cymunedol, Bryncir, Garn, Golan, Penmorfa a Pentrefelin. Mae'r etholaeth yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn ac yn agos iawn at y ffin o ran yr amrywiaeth y mae'r Cyngor wedi ei ganiatáu. Mae'r etholaeth eisoes yn anferth yn ddaearyddol (8,609 hectar) ac yn anodd i deithio o'i gwmpas a byddai ychwanegu ato yn ei wneud yn hynod o anodd o ran cynrychiolaeth leol effeithiol. Ar ben hynny, mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.19. Efail Newydd / Buan - Mae'r etholaeth hon o 998 o etholwyr yn cynnwys 5 ward cymunedol bychan gwledig, Ceidio, Bodfuan, Pentreuchaf, Efail-newydd a Bachellaeth. Mae'r etholaeth yn fawr yn ddaearyddol (5,571 hectar), yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn ond o fewn yr amrywiaeth y mae'r Cyngor wedi ei ganiatáu. Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o'i gysylltu gydag ardaloedd eraill ond, oherwydd maint daearyddol yr etholaeth a'r ffaith ei fod yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol, nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.20. Llanystumdwy - Mae'r etholaeth hon o 1,493 o etholwyr yn cynnwys 4 ward cymunedol bychan gwledig, Llanarmon, Llangybi, Rhoslan a Llanystumdwy ei hun. Mae'r etholaeth fymryn yn fwy na'r

canllaw o ran niferoedd  a osodwyd gan y Comisiwn ond mae’n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.21. Nefyn - Mae’r etholaeth hon o 975 o etholwyr yn cynnwys un ward cymunedol. Mae’r etholaeth yn gymharol fychan yn ôl canllawiau’r Comisiwn ond o fewn yr amrywiaeth y mae’r Cyngor wedi ei ganiatáu. Rhoddwyd ystyriaeth i’r etholaeth yng nghyd-destun rhai newidiadau cyffiniol ond nid oedd hynny yn cynnig unrhyw welliant arwyddocaol i’r sefyllfa. Ar ben hynny, mae’n â’i hunaniaeth ei hun fel uned ac yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.22. Porthmadog (Dwyrain) - Mae’r etholaeth hon o 1,132 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Dwyrain Porthmadog ei hun ac Ynys Galch. Mae’r etholaeth fymryn yn unig yn is na ffigwr canllaw y Comisiwn o ran niferoedd. Mae’n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.23. Porthmadog (Gorllewin) - Mae’r etholaeth hon o 1,265 o etholwyr yn cynnwys 3 ward cymunedol, Gorllewin Porthmadog ei hun, Gest a Morfa Bychan. Gan bod yr etholaeth bresennol yn agos iawn at ffigwr canllaw’r Comisiwn o ran niferoedd a’i fod yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.24. Porthmadog (Tremadog) - Mae’r etholaeth hon o 943 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Prenteg a Beddgelert. Mae’r etholaeth yn gymharol fychan yn ôl canllawiau’r Comisiwn ond o fewn ffîn o ran yr amrywiaeth y mae’r Cyngor wedi ei ganiatáu. Mae’r etholaeth eisoes yn anferth yn ddaearyddol (9,924 hectar) ac yn anodd i deithio o’i gwmpas a byddai ychwanegu ato yn ei wneud yn hynod o anodd o ran cynrychiolaeth leol effeithiol. Ar ben hynny, mae’n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.25. Pwllheli (De) - Mae’r etholaeth hon o 1,268 o etholwyr yn un ward cymunedol. Gan bod yr etholaeth bresennol yn agos iawn at ffigwr canllaw’r Comisiwn o ran niferoedd a’i fod yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.26. Pwllheli (Gogledd) - Mae’r etholaeth hon o 1,502 o etholwyr yn un ward cymunedol. ER ei fod yn uwch na’r ffigwr canllaw a roddwyd gan y Comisiwn, ni fyddai ei rannu yn gwneud synnwyr yn ddaearyddol nac yn gymunedol. Mae’r etholaeth yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

**Ardaloedd ym Meirionnydd**

2.27. Aberdyfi - Mae’r etholaeth hon o 884 o etholwyr, yr etholaeth mwyaf deheuol yn y sir. yn cynnwys 3 ward cymunedol, Dyfi, Abertafol a Pennal. Mae’r ffin sirol yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd i wneud unrhyw addasiadau. Mae’r etholaeth hynod o wledig gyda phoblogaeth wasgaredig dros ardal enfawr o 5,298 hectar ac yn anodd i deithio o’i gwmpas ac, er y rhoddwyd ystyriaeth ei gysylltu gydag ardaloedd eraill, nid oedd unrhyw gynnig o’r fath yn cynnig gwelliant go iawn o’r sefyllfa bresennol. Mae yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.28. Abermaw - Mae’r etholaeth hon o 1,531 o etholwyr yn un ward cymunedol. Er ei fod yn fwy na ffigwr canllaw’r Comisiwn o ran niferoedd, yn ddaearyddol, nid yw’n gwneud synnwyr ei wahanu mewn unrhyw ffordd gan fod iddo ei hunaniaeth ei hun fel uned a felly, gan fod ei fod yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol, nid yw’r Cyngor yn cynnig unrhyw newid..

2.29. Brithdir a Llanfachreth / Y Ganllwyd / Llanelltyd - Mae'r etholaeth hon o 1,116 o etholwyr yn cynnwys 4 ward cymunedol, Llanelltyd, Ganllwyd, Machreth a Brithdir ac yn ffurfio siâp pedol o gwmpas Dolgellau i'r dwyrain, y gogledd a'r gorllewin. Mae eisoes yn etholaeth enfawr yn ddaearyddol (19,594 hectar) ac yn anodd i deithio o'i gwmpas ac yn ddigon agos at ffigwr canllaw'r Comisiwn o ran niferoedd i gyfiawnhau peidio ail-edrych er mwyn ychwanegu ato. Mae'r etholaeth yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.30. Bowydd a Rhiw - Mae'r etholaeth hon o 1,237 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Bowydd a Rhiw ei hun a Tanygrisiau. Ystyriwyd yr etholaeth yng nghyd-destun newidiadau yr oedd yn gorfod digwydd mewn etholaeth gyffiniol ond roedd modd datrys hynny heb effeithio ar yr etholaeth hon. Mae'r etholaeth yn agos iawn at ffigwr canllaw y Comisiwn ac yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.31. Corris a Mawddwy - Mae'r etholaeth hon o 963 o etholwyr yn cynnwys 4 ward cymunedol, Corris, Aberangell, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy sydd hefyd ar ffin ddeheuol y sir. Mae'r ffin sirol yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd i wneud unrhyw addasiadau. Mae'r etholaeth yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn ond o fewn ffîn o ran yr amrywiaeth y mae'r Cyngor wedi ei ganiatáu. Mae'r etholaeth eisoes yn anferth yn ddaearyddol (16,490 hectar) ac yn anodd i deithio o'i gwmpas a byddai ychwanegu ato yn ei wneud yn hynod o anodd o ran cynrychiolaeth leol effeithiol. Ar ben hynny, mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.32. Dolgellau (De) - Mae'r etholaeth hon o 1,044 o etholwyr yn un ward cymunedol. Er ei fod fymryn yn fychan yn ôl canllaw'r Comisiwn o ran niferoedd, mae'n gyfforddus o fewn yr amrywiaeth y mae'r Cyngor wedi ei ganiatáu a nid yw'n gwneud synnwyr i wneud unrhyw addasiadau iddo. Mae'r etholaeth yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.33. Dolgellau (Gogledd) - Mae'r etholaeth hon o 900 o etholwyr yn un ward cymunedol, sydd yn ffurfiol cylch o gwmpas tref Dolgellau ei hun ac yn dwyn y cymunedau llai sydd yn gweld Dolgellau fel y dref y maent yn cysylltu ag ef ynghyd. Mae'r etholaeth yn gymharol fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn ac yn agos iawn at y ffin o ran yr amrywiaeth y mae'r Cyngor wedi ei ganiatáu. Fodd bynnag, byddai ychwanegu ato yn ei wneud yn hynod o anodd o ran cynrychiolaeth leol effeithiol. Ar ben hynny, mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.34. Penrhyndeudraeth - Mae'r etholaeth hon o 1,745 o etholwyr yn cynnwys 2 ward cymunedol, Penrhyndeudraeth a Llanfrothen. Mae'n etholaeth fawr o ran niferoedd o ystyried canllaw'r Comisiwn ond nid yw'n gwneud synnwyr ei wahanu mewn unrhyw ffordd. Mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

2.35. Y Bala - Mae'r etholaeth hon o 1,353 o etholwyr yn un ward cymunedol. Mae'r etholaeth yn dref â'i hunaniaeth ei hun fel uned ac oddeutu ffigwr canllaw y Comisiwn o ran niferoedd. Mae'n gwneud synnwyr yn ddiwylliannol a chymunedol a nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newid.

**ARDALOEDD LLE Y MAE'R CYNGOR YN CYNNIG NEWIDIADAU PENODOL**

3.1. Ardal Dinas Bangor

Mae ardal Dinas Bangor yn cael ei effeithio yn fawr iawn gan y newidiadau yn y modd y mae'r gofrestr etholwyr yn cael ei lunio. Er nad yw hynny yn cael effaith o gwbl ar lwyth gwaith

cynghorwyr, mae hyn wedi arwain at leihad arwyddocaol yn nifer yr etholwyr sydd wedi cofrestru, yn arbennig mewn rhai wardiau, er na welwyd unrhyw ostyngiad yn y boblogaeth mewn dinas sydd yn dal i dyfu.

Mae natur y ddinas a rhai o'r cymunedau oddi fewn iddo hefyd wedi newid ers yr adolygiad diwethaf ac mae'n parhau i esblygu.

Fel y soniwyd yn 2.4, 2.6 a 2.11 uchod, mae'r Cyngor yn awgrymu cadw etholaethau Pentir, Dewi a Glyder fel ag y maent ar hyn o bryd

Mae gweddill y ddinas yn rhannu yn dair rhan, sydd yn rhaniadau daearyddol amlwg rhwng y ddau fryn a'r dyffryn sydd rhyngddynt lle saif canol y ddinas. Cynnig y Cyngor yw y dylid dilyn y rhaniadau daearyddol hynny gan arwain at:-

- Etholaeth Marchog (1,559) i aros fel ag y mae ar hyn o bryd yn cynnwys cadw dau aelod oherwydd maint y ward (poblogaeth o 2,556 yng Nghyfrifiad 2011) a hefyd natur y gymuned ddifreintiedig sydd yno (ardal Cymunedau'n Gyntaf gyda 56.6% yn byw mewn eiddo wedi'i rentu'n gymdeithasol) sydd yn cynyddu llwyth gwaith unrhyw aelod sydd yn cynrychioli'r etholaeth
- Uno etholaethau Menai a Garth (1,439) ond pwyso yma eto am ganiatáu dau aelod oherwydd y pwysau sydd yn dod o faint yr etholaeth (poblogaeth o 5,125 yn ôl Cyfrifiad 2011) yn sgil presenoldeb miloedd o fyfyrwyr yn yr ardal (1,900 o fyfyrwyr wedi eu rhannu dros 14 Neuadd Breswyl Prifysgol, heb ystyried neuaddau preifat) a'r ffaith bod y Brifysgol am gyflwyno trefn newydd i geisio cael mwy o fyfyrwyr i gofrestru i bleidleisio yn lleol
- Rhannu ward Deiniol o gwmpas Glanrafon a'r Gadeirlan gyda'r ochr gogledd-ddwyreiniol ohono yn ymuno ag etholaeth Hirael i greu etholaeth o oddeutu 1,200 a'r hanner de-orllewinol ohono, yn cynnwys Cae Llepa, yn ymuno ag etholaeth Hendre i greu etholaeth o tua 1,250.

Mae'r cynnig hwn gan y Cyngor, sydd yn golygu newid ffiniau ward cymunedol yn hen etholaeth ward Deinio, wedi derbyn cefnogaeth Cyngor Dinas Bangor hefyd.
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.2. <u>Ardal Abersoch, Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Morfa Nefyn a Llanbedrog</u>

Mae amryw o etholaethau presennol angen sylw yn yr ardal hon gydag etholaethau Abersoch (523) Llanbedrog (734), Aberdaron (724) Tudweiliog (660), Morfa Nefyn ac Edern (897) a Llangian (503) oll yn rhy fach i deilyngu seddau yn ôl canllawiau'r Comisiwn. Edrychwyd ar y wardiau cymunedol presennol fel blociau adeiladu a cafwyd trafodaethau gyda'r aelodau lleol ynglyn â chysylltiadau cymunedol naturiol o fewn yr ardal leol.

Mae pryder gwirioneddol am effaith y newidiadau hyn ar gynrychiolaeth ddemocrataidd yn yr ardal, gyda lleihad posib o dri yn nifer y cynghorwyr, a chonsyrn penodol nad yw defnyddio nifer etholwyr yn unig yn ffordd resymol o asesu llwyth gwaith tebygol cynghorydd. Y ddau brif fater sydd yn effeithio ardal y saith etholaeth dan sylw yw presenoldeb ymwelwyr a'r nifer o ail-gartrefi yn yr ardal. Mae ardal Pen Llyn, fel ardal lle mae'r Diwydiant Twristiaeth yn bwysig iawn, yn derbyn cyfran arwyddocaol o'r 6.68 miliwn o ymwelwyr i Wynedd mewn blwyddyn (ffigwr 2015). Ar ben hynny, mae ail-gartrefi lle mae'r perchnogion wedi eu cofrestru fel etholwyr yn ardal ei prif gartref yn nodwedd amlwg o'r ardal. Dengys Cyfrifiad 2011 bod 1,479 (30.7%) o gyfanswm y cartrefi ("household spaces") yn y saith etholaeth o 4,822 "heb breswylwyr arferol".

Byddai'r Cyngor yn dymuno i'r Comisiwn roi sylw i hyn ond, o fewn y cyfyngiadau sydd ar gael, cynnig y Cyngor yw:-

- Etholaeth ar gyfer cymuned Llanbedrog yn ymestyn o Benrhos i groesffordd Goed y Fron, Mynytho, sydd yn cynnwys Llanbedrog (768) a Mynytho hyd at Coed y Fron (tua 450) (Etholaeth un aelod gyda tua 1,218 o etholwyr).
- Etholaeth arall ar gyfer cymuned Llanengan o groesffordd Coed y Fron fydd yn cynnwys y gweddill o Langian (tua 53 o etholwyr y tu hwnt i Mynytho), Llanengan (333) ac Abersoch (523) yn cynnig etholaeth un aelod gyda tua 909 o etholwyr.
- Uno etholaethau Aberdaron (733) a Botwnnog ( 724) i greu etholaeth newydd o 1,457 o etholwyr (dau Gyngor Cymuned cyfan)
- Uno etholaethau Tudweiliog (660) a Morfa Nefyn ac Edern (897) i greu un etholaeth newydd o 1,557 o etholwyr (dau ardal Cyngor Cymuned cyfan)

Mae'r cynnig hwn yn golygu un newid i ffin ward cymunedol yn ward Llangian o fewn hen etholaeth Llanengan.
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

Mae'r ardal gyfan yn un gwledig iawn (17,054 hectar i gyd) ac yn gyfuniad o bentrefi bychain a thai gwledig annibynnol ac yn anodd i deithio o'i gwmpas. Fel y nodwyd uchod, mae hefyd yn ardal sydd yn cael ei effeithio'n fawr iawn gan ymwelwyr yn ystod y tymor gwyliau estynedig a gan y nifer o ail-gartefi. Mae'r cynigion yn cynnig etholaethau mwy yng ngogledd Penrhyn Llyn nag yn y de gydag un etholaeth fychan o 909 o etholwyr. Barn y Cyngor yw y dylid rhoi sylw i faterion ehangach na niferoedd etholwyr ond bod yr uchod yn gynigion rhesymol yng nghyd-destun disgwyliadau cyfredol y Comisiwn Ffiniau ac yn cynnal ac yn adeiladu ar gysylltiadau cymunedol lleol a maent wedi derbyn cefnogaeth leol.

3.3. <u>Llanwnda, Groeslon a Carmel</u>

Cafodd amryw o gynigion eu hystyried ar gyfer yr ardal hon gyda'r angen pennaf yn ceisio ymateb i faint etholaeth bresennol Bontnewydd, sydd yn rhy fach fel ag y mae a newidiadau cysylltiol I hynny. Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cafwyd ymgynghoriad sydyn gyda'r aelodau lleol perthnasol a bellach, yr argymhellion, sydd yn wahanol i'r argymhellion a aeth gerbron y pwyllgor, yw:-

Fel y noda paragraffau 2.7 a 2.14 uchod, awgrymir gadael etholaethau Groeslon a'r Waunfawr fel ag y maent ond cynigir gwneud yr addasiadau a ganlyn:-

Ychwanegu ward Dinas (499) at etholaeth bresennol Bontnewydd (849) i greu etholaeth newydd o 1,339 o etholwyr sydd yn adlewyrchu'r cyswllt cymunedol agos rhwng ardal Dinas a phentref Bontnewydd o ran gweithgareddau cymunedol a chysylltiadau siopa a theithio.

Cysylltu wardiau presennol Rhostryfan (515) a Rhosgadfan (433) gyda Carmel (396) a Ceserea (241) i greu etholaeth newydd o 1,585 ar gyfer y cymunedau tebyg o ran eu natur ar ochr uchaf y dyffryn gan dorri'r cyswllt rhwng Carmel a Thalysarn (gweler 3.9 isod).
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.4. <u>Ardal Tref Caernarfon</u>

Mae Caernarfon hefyd yn ardal drefol sydd wedi gweld newidiadau ers i'r ffiniau gael eu hadolygu'n fwyaf diweddar. Mae'r cynigion isod, sydd wedi derbyn cefnogaeth unfrydol yr holl aelodau lleol a Chyngor Tref Caernarfon, yn defnyddio ffiniau naturiol Ffordd Llanberis a'r Ffordd Gyswllt trwy'r dref fel ffiniau amlwg a naturiol.

O dan yr hen ffiniau, roedd dwy etholaeth Menai a Cadnant yn fawr, Menai yn arbennig felly gyda 1,718 o etholwyr ac mae'r cynigion sydd gerbron (a ddangosir yn y mapiau sydd ynghlwm) yn cyfarch hynny ac yn adlewyrchu ffiniau ffisegol amlwg y prif ffyrdd trwy ac o gwmpas y dref y byddai pobl leol yn eu hadnabod. Mae'r cynnig hwn yn golygu newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol o fewn y dref.

Mae hyn yn arwain at gynnig sydd yn arwain at leihau maint etholaeth Menai i tua 1,500, lleihau maint etholaeth Cadnant i tua 1,307 a chynnydd ym maint etholaeth Peblig i tua 1,485

Mae hyn yn gadael sefyllfa etholaeth bresennol Seiont, fyddai, yn sgil y newidiadau uchod, yn etholaeth 2 aelod gydag oddeutu 2,392. Fodd bynnag, er mwyn gweithredu ar ddymuniad y Cyngor i geisio cael etholaethau un aelod, mae'r Pwyllgor yn argymell ei rannu i fewn i ddwy etholaeth – Etholaeth Canol Tref Caernarfon o oddeutu 1,177 ac Etholaeth Hendre, sydd yn bennaf yn un stâd tai mawr unigol, o tua 1,215 o etholwyr.
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

3.5. <u>Ardal Ffestiniog</u>

Tra mae ardal Bowydd a Rhiw yn iawn fel ag y mae, mae etholaeth Diffwys a Maenofferen gyda 750 o etholwyr yn rhy fechan ac etholaeth Teigl (1,315) ychydig yn fwy na'r cyfartaledd. Byddai'r ddwy etholaeth gyda'i gilydd yn gwneud etholaeth o 2,065 o etholwyr allai gyfiawnhau 2 aelod. Gan bod y Cyngor yn ceisio osgoi etholaethau 2 aelod, awgrymir sefydlu ffin newydd rhwng etholaeth Diffwys a Maenofferen ac etholaeth Teigl, ar draws Ffordd Manod, ar hyd ffîn naturiol a gytunwyd gyda'r Cyngor Tref. Mae hyn yn caniatáu dwy etholaeth un aelod, Diffwys a Maenofferen o 1,012 a Teigl o 1,053. Mae'r cynnig hwn yn golygu symud y ffin rhwng dwy ward cymunedol.
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.6. <u>Ardal Tywyn</u>

Ar hyn o bryd mae etholaeth Tywyn yn etholaeth dau aelod o 2,388. Gan bod y Cyngor yn ceisio osgoi etholaeth 2 aelod, argymhellir sefydlu dwy etholaeth newydd gan ddefnyddio'r wardiau cymunedol presennol fel blociau adeiladu. Byddai hyn yn golygu creu dau etholaeth, Morfa Tywyn gyda 1,240 o etholwyr a Tref Tywyn (Gorllewin a Dwyrain) gyda 1,148 o aelodau.
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.7. <u>Ardal Trawsfynydd, Harlech, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr</u>

Mae amryw o etholaethau presennol angen sylw yn yr ardal hon gydag etholaeth Llanbedr (789) llawer yn rhy fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn ac etholaethau eraill sydd angen sylw yn y tymor hwy o ran eu maint.

Yr argymhelliad i'r Cyngor yw newid 4 sedd (Trawsfynydd, Harlech, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr) yn 3 yn effeithio Dyffryn Ardudwy (1,179), Llanbedr (442), Llanfair (347) Harlech (1,045), Talsarnau (428), Maentwrog (428) a Trawsfynydd (672). Felly, yr etholaethau newydd fyddai:-

Un sedd - Harlech, Talsarnau a Llanfair (1820) – (3 ardal cyngor cymuned cyfan)
Un sedd – Llanbedr, Dyffryn Ardudwy a Talybont (1,621) (2 ardal cyngor cymuned cyfan)
Un sedd - Trawsfynydd a Maentwrog (1,016) - dim newid (ardal un cyngor cymuned)
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.8. <u>Ardal Llanrug</u>

Mae angen tacluso yng nghylch Llanrug er mwyn gwastatau sefyllfa'r etholaethau trwy ddelio â wardiau cymunedol presennol Cwm y Glo (438), Brynrefail (224) a Ceunant (305) a hefyd Penisarwaun (560) a Rhiwlas (533)

Cynnig y Cyngor, sydd wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Cymuned Llanrug, yw:-

Un etholaeth ar gyfer Cwm y Glo , Brynrefail a Ceunant (967) sydd yn creu etholaeth siâp pedol o gwmpas ochr ddeheuol pentref Llanrug
Un etholaeth ar gyfer Penisarwaun a Rhiwlas (1,093) sydd yn ymestyn i'r cymunedau i'r gogledd-ddwyrain o bentref Llanrug
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.9. <u>Ardal Llanllyfni, Talysarn a Nantlle</u>

Mae ward presennol Talysarn (sydd yn cynnwys Carmel) wedi bod yn destun trafodaeth lleol ers tro oherwydd y ffin naturiol amlwg rhwng dau brif ardal yr etholaeth ac mae amryw o gymunedau bychan o fewn yr etholaeth. Mae hyn yn golygu, ar hyn o bryd, er mwyn teithio o un rhan o'r etholaeth i un arall, bod yn rhaid mynd trwy Penygroes, sydd yn etholaeth ar wahân ac mae'r etholaeth bresennol yn cynnwys amryw o gymunedau bychan gwahanol.

Argymhellir dwyn ynghyd Llanllyfni (513) Talysarn (704) a Nantlle (152) i greu un etholaeth newydd o 1,369 (Y mwyafrif o ardal ddaearyddol Cyngor Cymuned Llanllyfni)
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.10. <u>Ardal Clynnog, Trefor a Llithfaen</u>

Mae amryw o etholaethau presennol angen sylw yn yr ardal hon gydag etholaeth Clynnog sydd â dim ond 713 etholwr angen sylw penodol.

Argymhelliad y pwyllgor yw bod etholaeth presennol Llanaelhaearn (1,151) yn aros fel ag y mae er y byddai ei alw yn "Yr Eifl" yn fwy synhwyrol. Byddai ward Nebo (233) wedyn yn cael ei ychwanegu at Clynnog i greu etholaeth newydd o 946 o etholwyr (sydd yn dal yn etholaeth bychan iawn yn nhermau'r Comisiwn) a'i dynnu oddi wrth ward Llanllyfni fyddai'n lleihau maint y ward hwnnw i 1,369 mwy rhesymol (Gweler paragraff 3.9 uchod). Byddai hyn yn cyfarch pryderon a fynegwyd gan Gyngor Cymuned Pistyll am gysylltu cymunedau bychain gwledig gydag ardaloedd mwy a gwahanol iawn.
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.11. <u>Ardal Penllyn</u>

Mae angen peth tacluso yn yr ardal hon i gyfarch sefyllfa rhai etholaethau bychan. Mae'r sgôp i newid mewn ardal wledig fel hyn yn gyfyng ond teimlir bod y newidiadau a awgrymir yn cyfarch y gofyn tra'n derbyn y bydd etholaethau mewn ardaloedd gwledig bob amser yn llai.

Argymhellir cyfnewid wardiau rhwng y ddwy etholaeth bresennol ond cadw dwy sedd fel bod 3 sedd yn yr ardal gyfan, sef y Bala a hefyd Gorllewin Penllyn - Llanuwchllyn (494), Cwm y Glyn (83) a Llanycil (323) (etholaeth o 900) a Dwyrain Penllyn – Gwalia (125), Llan y Betws (456) a Llanfor (347) (etholaeth o 928). Mae'r etholaethau yn fychan o edrych i'r dyfodol ond mae'n anorfod mewn ardal mor wledig sydd yn 2,388 hectar yn ôl Cyfrifiad 2011.
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)

3.12. Ardal Llanegryn, Bryncrug a'r Friog

Mae angen cyfarch sefyllfa etholaethau yn yr ardal. (Dim ond 755 o etholwyr sydd gan Bryncrug a Llanfihangel ar hyn o bryd tra mae etholaeth Llangelynnin yn 1,577 o etholwyr)
Argymhellir symud ward Llanegryn o un etholaeth i'r llall er mwyn creu dwy etholaeth sy'n fwy cyfartal o ran nifer yr etholwyr:-
Llanegryn, Bryncrug a Llanfihangel a fyddai'n etholaeth o 1,000 (yn ymestyn dros ardal tri Chyngor Cymuned)
Y Friog, Islaw'r Dre a Llangelynnin a fyddai'n etholaeth o 1,332 (yn ymestyn dros ardal 2 Gyngor Cymuned)
(Mae map yn dangos yr hyn a awgrymir wedi ei atodi)